Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Mawrth 2020

**Mae'r canlyniadau diweddaraf mewn perthynas â dosbarthiad carcasau mewn lladd-dai yng Nghymru yn dangos fod gan gyfran uwch o ŵyn a gwartheg dethol fwy o fraster nag yn ystod 2019. Bydd bwletin y farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.**

## ŴYN

Mae'r ffigurau cyffredinol ar gyfer 2019 yn dangos fod bron i hanner (49.2%) y carcasau ŵyn yn y sampl pwysau marw yn lladd-dai Cymru â chydffurfiad **R**, sef 0.5% yn fwy nag yn 2018. Hefyd, cafwyd cynnydd o 0.5% yn nifer yr ŵyn â chydffurfiad **O**. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos y cafodd bron i 90% o'r ŵyn a aeth drwy ladd-dai Cymru yn 2019 eu gosod yn y dosbarthiadau cydffurfiad uchaf, sef **E**, **U** neu **R**.

Yn ystod 2019, roedd gostyngiad bychan yn nifer yr ŵyn yn y dosbarthiadau braster a ddymunir. Cofnodwyd y rhan fwyaf (45.9%) o'r ŵyn yn nosbarth braster **3L**, sef 1.3% yn llai nag yn 2018. Hefyd, cafwyd gostyngiad o 1.2% yn nifer yr ŵyn â llai o fraster a gafodd ddosbarthiad **2**, tra bu cynnydd o 1.2% i 24.8% yn nifer yr ŵyn â dosbarth braster **3H**. Roedd y cynnydd yn nifer yr ŵyn â dosbarth braster uchel i'w ddisgwyl am fod rhai lladd-dai wedi newid eu grid tâl, ac am fod ŵyn trymach yn cael eu hanfon i'w lladd. Y rheswm am hyn oedd fod y borfa wedi tyfu'n dda yn ystod gwanwyn a hâf 2019 (yn enwedig mewn cymhariaeth â 2018 pan na chafwyd cystal tywydd).

Roed canran yr ŵyn yng Nghymru a raddiwyd yn **R3L** yn 21.5%, mewn cymhariaeth â 22.2% yn 2018. Byddai'r dosbarthiad hwn yn golygu cael y pris sylfaenol gan y prosesydd. Ym Mhrydain, roedd 27.6% o garcasau'r ŵyn dethol yn y sampl yn nosbarth **R3L**, sef ychydig yn uwch nag yng Nghymru.

***Canran carcasau ŵyn dethol yn ôl dosbarthau braster a chydffurfiad yn lladd-dai Prydain, 2015 - 2019***

| | Dosbarth Braster | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3L | 3H | 4L | 4H | 5 |
| 2015 | 0.7 | 17.1 | 49.2 | 24.9 | 6.8 | 1.0 | 0.2 |
| 2016 | 1.0 | 19.4 | 47.9 | 23.9 | 6.7 | 0.9 | 0.1 |
| 2017 | 1.3 | 19.3 | 45.2 | 25.8 | 6.9 | 1.2 | 0.3 |
| 2018 | 1.6 | 20.7 | 47.2 | 23.6 | 6.0 | 0.9 | 0.2 |
| 2019 | 1.2 | 19.5 | 45.9 | 24.8 | 7.2 | 1.0 | 0.3 |

| | Dosbarth Cydffurfiad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | E | U | R | O | P |
| 2015 | 10.4 | 28.9 | 49.7 | 10.9 | 0.1 |
| 2016 | 10.1 | 27.0 | 48.8 | 14.1 | 0.1 |
| 2017 | 9.9 | 28.0 | 50.3 | 11.8 | 0.1 |
| 2018 | 10.8 | 29.4 | 48.7 | 11.1 | 0.0 |
| 2019 | 9.9 | 29.3 | 49.2 | 11.6 | 0.0 |

## GWARTHEG DETHOL

Mae canlyniadau'r arolwg o wartheg dethol yn 2019 yn seiliedig ar ladd-dai ym Mhrydain. Mae'r ffigurau'n dangos fod nifer y gwartheg dethol a gafodd gydffurfiad **R** yn ystod y flwyddyn yn 45.2%, sef 0.6% yn uwch nag yn 2018. Yn ogystal, cafodd mwy o wartheg gydffurfiad **O+** (+1.5% i 24.2%) tra bod gan 15.0% o garcasau'r gwartheg dethol gydffurfiad U- (-0.1%). Roedd y cydffurfiadau **R** ac **O+** yn cyfrif am bron i 70% o'r holl gydffurfiadau ar gyfer gwartheg dethol yn ystod y flwyddyn, sef 2.1% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol.


Roedd y dosbarthiadau braster **3** a **4L** yn cyfrif am bron i 77% o ddosbarthiadau gwartheg dethol yn 2019, gyda gostyngiad o 1.1% yn nifer y gwartheg yn nosbarth braster **3**. Mewn cymhariaeth â 2018, cafodd 0.5% yn fwy o wartheg trwm eu graddio'n **4H**. Roedd hyn, ynghyd â charcasau trymach y gwartheg dethol yn y DU (cynnydd o 4.1kg i 345.5kg mewn cymhariaeth â 2018) yn awgrymu ei fod yn ganlyniad i amodau tyfu da yn ystod 2019. Cafodd dros 35% o garcasau gwartheg dethol eu dosbarthu'n **R3** a **R4L** yn 2019, a fyddai'n golygu cael y pris sylfaenol cyfartalog gan y prosesydd.


Dylai cynhyrchwyr cig oen a chig eidion anelu at ateb rhagofynion y farchnad a'r cwsmer. Pennir y rhagofynion hyn drwy ddeall gofynion y cwsmer ac, ar yr un pryd, wrth geisio bod yn effeithlon wrth gynhyrchu a phrosesu. Bydd unrhyw garcasau (cig oen neu gig eidion) a gynhyrchir y tu allan i'r rhagofynion hyn yn arwain at gosb a chostau cynyddol i'r sawl sydd yn y gadwyn gyflenwi.

***Canran carcasau gwartheg dethol yn ôl dosbarthau braster a chydffurfiad yn lladd-dai Prydain, 2019***

| | 1 | 2 | 3 | 4L | 4H | 5L | 5H | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | 0.1 | 0.2 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.5 |
| U+ | 0.1 | 1.0 | 1.9 | 0.7 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 3.8 |
| U- | 0.1 | 1.7 | 6.2 | 5.7 | 1.1 | 0.0 | 0.0 | 15.0 |
| R | 0.2 | 3.3 | 16.8 | 18.8 | 5.8 | 0.4 | 0.0 | 45.2 |
| O+ | 0.1 | 1.6 | 8.6 | 10.2 | 3.4 | 0.3 | 0.0 | 24.2 |
| O- | 0.1 | 1.3 | 4.8 | 2.9 | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 9.6 |
| P+ | 0.2 | 0.5 | 0.6 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.4 |
| P- | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.3 |
| Cyffredinol | 1.1 | 9.7 | 39.1 | 38.3 | 10.9 | 0.7 | 0.1 | |

*Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar arolwg sampl a wnaed mewn lladd-dai ar draws Prydain lle caiff carcasau eu dosbarthu yn ôl grid dosbarthiad EUROP. Data gan AHDB.*









## GWARTHEG

Roedd y pris pwysau byw yn yr wythnos yn diweddu 14 Mawrth yn 188.9c/kg, sef 4.9p yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a 6.1p yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. Mae'r pris ar hyn o bryd yn 2.3c yn uwch na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 188.6c/kg). Yn yr wythnos a ddaeth i ben 14 Mawrth, roedd y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr yn 331.7c/kg, sef 0.6c yn is nag yn yr wythnos flaenorol a 2.6c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn 330.0 c/kg, sef 1.0c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a phrisiau teirw ifanc yn 311.0c/kg (+0.8c).

Roedd nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU yn 226,200 ym mis Chwefror, sef 0.5% yn is llynedd, ond 5.0% yn is nag ym mis Ionawr. Lladdwyd 163,400 o wartheg dethol, sef 1.2% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Oddi mewn i'r cyfanswm hwn, lladdwyd 83,300 o fustych, sef 0.6% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl, a lladdwyd 69,500 o heffrod (+3.7%) a 10,600 o deirw ifainc (-8.7%). Wrth i bwysau cyfartalog carcasau gwartheg dethol barhau'n uchel, cynhyrchwyd 1.5% yn fwy o gig eidion a chig llo nag yn y flwyddyn flaenorol, sef cyfanswm o 74,900 tunnell.









## DEFAID

Yn ystod yr wythnos yn diweddu 14 Mawrth, roedd y Dyfynbris Ansawdd Safonol (SQQ) pwysau byw cyfartalog yn y marchnadoedd byw yng Nghymru yn 242.7c/kg, sef 47.7c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol yn 2019. Dyma'r pris uchaf hyd yma eleni; mae'n 49.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd (2015-19: 193.5c/kg. Mae prisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru hefyd wedi parhau'n dda ers dechrau 2020 ac roedden nhw'n £82.23 yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 14 Mawrth, sef £24.13 yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, a £2.83 yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Yn yr wythnos yn diweddu 14 Mawrth, roedd y prisiau pwysau marw am ŵyn ym Mhrydain yn 539.7c/kg (8.8c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol).

Cyfanswm yr holl ddefaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Chwefror oedd 955,100, sef 18.3% yn llai nag ym mis Ionawr, ac 8.5% yn llai nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Lladdwyd 835,600 o ŵyn dethol, sef 7.9% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ond cafwyd y gostyngiad mwyaf (-12.4%) gyda mamogiaid a hyrddod difa. Nid oedd hynny'n annisgwyl am fod mwy nag arfer wedi cael eu lladd yn ystod 2019. Am y cafodd llai o ddefaid eu lladd, cynhyrchwyd 9.7% yn llai o gig defaid nag yn y flwyddyn flaenorol. Parhaodd pwysau'r carcasau'n weddol gyson ar gyfer ŵyn (-0.3kg) yn ogystal â mamogiaid/hyrddod (dim newid).




## MOCH

Roedd Prisiau'r Holl Foch (APP) Manyleb-UE ym Mhrydain yn 165.4c/kg yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 07 Mawrth, sef rhywbeth yn debyg i'r wythnos flaenorol (+0.7c), a 22.5c yn uwch na'r wythnos gyfatebol yn 2019. Wrth i brisiau ddal i godi'n uwch nag arfer oddi ar fis Medi, mae'r pris ar hyn o bryd yn 25.9c yn uwch na'r cyfartaledd-pum-mlynedd (cyfartaledd 2015-19: 139.5c/kg). Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain yn yr wythnos yn diweddu 07 Mawrth yn £61.95 y mochyn (20.2% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl) ac roedd y pris cyfartalog am berchyll 7kg yn £42.85 y mochyn (+17.6%).

Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 884,300 ym mis Chwefror, sef 9.7% yn llai nag ym mis Ionawr, a 3.7% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Y rheswm am y cynnydd oedd bod mwy o foch heb fagu (+3.6% ) a hychod a baeddod (+5.2%) wedi eu lladd. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol o bron i 10.0% i 864,400 yn nifer y moch heb fagu a laddwyd mewn cymhariaeth â'r nifer anarferol o uchel a laddwyd yn ystod y mis blaenorol. Cynhyrchwyd 5.1% yn fwy o borc nag yn y mis cyfatebol y llynedd oherwydd lladdwyd mwy o foch heb fagu ac am eu bod yn drymach.